

Adolygiad Gwella Ansawdd

Prifysgol Abertawe

Yr Adroddiad Canlyniadau

Tachwedd 2020



Cynnwys

Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd	1
Yr adolygiad yma	1
Ynghylch Prifysgol Abertawe.....	2
Y beirniadaethau am Brifysgol Abertawe	4
Y canmoliaethau	4
Y cadarnhadau.....	4
Yr argymhellion	4
Rhagor o wybodaeth.....	5

Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr [Adolygiad Gwella Ansawdd](#) ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.¹ Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch \(QAA\)](#).²

Yr adolygiad yma

Dyma Adroddiad Canlyniadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Abertawe. Roedd yr Ymweliad Adolygu wedi ei drefnu'n wreiddiol ar gyfer mis Mawrth 2020. Yn y cyfamser cafwyd y cynnod clo cenedlaethol yn sgil y pandemig COVID-19, ac felly cafodd yr Ymweliad Adolygu ei ohirio. Mewn trafodaeth gyda'r Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, aildrefnwyd yr Ymweliad Adolygu a chafodd ei gynnal rhwng 9 a 13 Tachwedd 2020. Gwnaeth QAA rai addasiadau i'r broses Adolygiad Gwella Ansawdd oedd yn angenrheidiol oherwydd parhad y pandemig. Y mwyaf nodedig o'r rhain oedd bod yr Ymweliad Adolygu wedi ei weithredu'n gyfan gwbl ar-lein.

Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o bedwar adolygwr:

- Dr Nicola Jackson
- Mr David Lloyd
- Yr Athro Jethro Newton
- Ms Nina Di Cara (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Mae adolygiadau QAA yn brosesau sy'n cael eu gweithredu ar sail tystiolaeth. Mae beirniadaethau'r adolygiadau'n codi o'r dogfennau y mae'r timau adolygu'n eu gweld, y cyfarfodydd y maent yn eu cynnal, a'r profiad a gânt fel adolygwyr sy'n gymheiriaid neu'n fyfyrwr.

Yn yr adroddiad hwn, ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae'n bosibl i'r feirniadaeth drosfwaol gael ei mynegi ar dair lefel sy'n nodi a yw'r darparwr 'yn bodloni'r gofynion' hyn, 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau', neu 'ddim yn bodloni'r gofynion'. Mae rhagor o fanylion am y categorïau yma yn y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd.

Gallwch weld y feirniadaeth drosfwaol ar gyfer yr adroddiad yma ar dudalen 3, ynghyd ag unrhyw ganmoliaethau, cadarnhadau ac argymhellion.

Mae [Adroddiad Technegol](#) mwy manwl ar gael hefyd ar gyfer yr adolygiad hwn.³ Mae'r Adroddiad Technegol yn nodi canfyddiadau'r tîm o dan bob un o'r penawdau yn y dull Adolygiad Gwella Ansawdd.

¹ Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd:

www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.

² Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.

³ Yr Adroddiad Technegol: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Abertawe

Ynghylch Prifysgol Abertawe

Mae Prifysgol Abertawe yn ei chanfed blwyddyn, yn dilyn ei sefydlu drwy Siarter Frenhinol yn 1920 yn sefydliad cyfansoddol o Brifysgol Cymru. Mabwysiadodd y teitl 'Prifysgol Abertawe' yn ffurfiol yn 2007.

Dyma weledigaeth y Brifysgol: "Gyda'n gilydd, byddwn yn trawsnewid bywydau a rhagolygon, drwy ddarparu amgylchedd academaidd rhagorol sy'n cydbwysu rhagoriaeth o ran addysgu ac ymchwil o safon fyd-eang ag ysgogi effaith ar sail cydweithio rhanbarthol a byd-eang effeithiol."

Ochr yn ochr â'r weledigaeth hon mae cenhadaeth y Brifysgol yn nodi y bydd yn:

- "Darparu profiad neilltuol i'w myfyrwyr, ynghyd ag addysgu sy'n cael ei arwain gan ymchwil a'i ysgogi gan ymarfer, sy'n cynhyrchu graddedigion byd-eang wedi eu haddysgu a'u hyfforddi i gyflawni canlyniadau nodedig yn eu bywydau personol a phroffesiynol."
- Darparu amgylchedd o ragoriaeth ymchwil, gydag ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang, yn seiliedig ar gydweithredu byd-eang ac a gydnabyddir yn rhyngwladol.
- Defnyddio ein cryfderau addysgu ac ymchwil, ein cydweithrediad â diwydiant a'n cyrhaeddiad byd-eang i ysgogi twf economaidd, i feithrin ffyniant, i gyfoethogi bywyd cymunedol a diwylliannol Cymru ac i gyfrannu at iechyd, hamdden a lles ei dinasyddion."

Mae Cynllun Strategol y Brifysgol, a lansiwyd yn 2004, yn ei bedwerydd cam bellach a bydd yn dod i ben yn 2020. Mae'r Cynllun Strategol newydd wrthi'n cael ei ddatblygu gyda chymorth gwaith ymgynghori eang â chymuned y Brifysgol.

Ar hyn o bryd, mae gan y Brifysgol fwy na 20,000 o fyfyrwyr llawn amser a rhan amser, y mae oddeutu 53% ohonynt yn ddynion a 47% yn ferched. Mae nifer y myfyrwyr o gefndir du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig yn cynyddu, a gwelwyd cynnydd o 62% yn nifer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf o'r cefndir hwn rhwng 2013 a 2017. Mae adrannau academaidd y Brifysgol wedi eu trefnu'n saith coleg ar hyn o bryd, ac mae'r Brifysgol yn cyflogi 3,500 o weithwyr academaidd a gweithwyr gwasanaethau proffesiynol.

Ers yr adolygiad diwethaf gan QAA yn 2014, mae'r Brifysgol wedi gwneud rhai newidiadau allweddol sy'n cynnwys datblygiad sylweddol Campws y Bae, a agorodd yn 2015, a gwelliannau i Gampws Singleton. Mae wedi cyflwyno'r fframwaith STEP4Excellence sy'n llywio darpariaeth themâu gwella profiad y myfyrwyr mewn perthynas â chymorth academaidd a bugeiliol, ymgysylltiad myfyrwyr, dysgu ac addysgu, a newid mewn diwylliant. Mae wedi sefydlu Tîm Gwasanaethau Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr penodol, ac mae wedi datblygu'r plattform ar-lein 'MyUniHub' er mwyn gwella darpariaeth y gwasanaethau i fyfyrwyr ymhellach. Diwygiwyd cyfrifoldebau Uwch Dîm Rheoli'r Brifysgol ac mae cynlluniau ar y gweill i wneud diwygiadau pellach. Yn ogystal, gwnaethpwyd adolygiad o'r seilwaith academaidd a arweiniodd at fireinio'r dulliau sicrhau ansawdd a gwella'r strwythur llywodraethu. Ym mis Medi 2017, lansiodd Prifysgol Abertawe Y Coleg, a sefydlwyd i gryfhau'r ddarpariaeth llwybrau i mewn i raglenni a addysgir y Brifysgol.

Yn 2018, dyfarnwyd Gwobr Aur am Ragoriaeth Addysgu i'r Brifysgol; cafodd ei rhestru'n 30ain o 120 o sefydliadau yn 'Good University Guide' y *Times* a'r *Sunday Times*; a dangosodd canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 fod y Brifysgol wedi symud o safle 52 yn 2008 i 26 yn 2014. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi ennill Gwobr Arian Athena SWAN.

Ar hyn o bryd, mae darpariaeth gydweithredol y Brifysgol yn weddol fach ac mae'n cynnwys cydberthnasau â phartneriaid rhyngwladol sy'n darparu cyfleoedd astudio mewn blynyddoedd rhyngosodol a chyfleoedd i astudio dramor, a gyda phartneriaethau yn y DU sy'n cynnwys cyrsiau o dan drefniadau dilysu neu etholfreinio, graddau sylfaen a phrentisiaethau gradd.

Un o uchelgeisiau'r Brifysgol yw datblygu ei darpariaeth ymhellach ac mae'n bwriadu gweithredu Strategaeth Ryngwladoli newydd a fydd yn ysgogi gweithgareddau cydweithredol yn y dyfodol.

Yn yr adolygiad blaenorol gan QAA yn 2014, tynnwyd sylw at wyth maes o arfer da, dau argymhelliad a dau gadarnhad. Lluniwyd cynllun gweithredu mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn a chwblhawyd yr holl gamau gweithredu erbyn 2015. Tynnwyd sylw at nodweddion o arfer da yn y meysydd canlynol: y cyfraniad a wneir gan y Llwybr Gyrfa Academaidd at wella profiad dysgu'r myfyrwyr; gwaith Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe i wella arferion dysgu ac addysgu, gan gynnwys ei dull o ddatblygu staff; y gefnogaeth y mae staff llyfrgell sy'n arbenigwyr pwnc yn ei rhoi i'r myfyrwyr, ynghyd â'u rôl mewn cysylltu â'r colegau; y defnydd a wneir o ystod eang o adborth gan fyfyrwyr; yr agwedd gydlynol tuag at ddatblygu cyflogadwyedd myfyrwyr; y cyfraniadau a wneir gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe, Academi Cynwysoldeb a Chefnogi Dysgwyr Abertawe, Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe ac Academi Hywel Teifi at brosiectau a luniwyd i wella profiadau dysgu ehangach y myfyrwyr; a'r ystod o fentrau symudedd a rhyngwladoli sy'n cyfrannu at ddatblygiad personol a gyrfaol y myfyrwyr.

Nodwyd yn yr argymhellion y dylai'r Brifysgol egluro'r modelau safoni sydd ar waith ar lefel y modiwl a'r rhaglen; ac y dylai weithredu system i'w galluogi i oruchwylio cyflawniad y myfyrwyr ar ei rhaglenni ymchwil ôl-raddedig.

Roedd y cadarnhadau'n ymwneud â'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd i sicrhau bod canlyniadau dysgu'n cael eu mynegi mewn ffordd sy'n gyson â disgwyliadau'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch* (FHEQ); ac i fonitro a gwella cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth ddiffiniol am raglenni. Mae'r camau gweithredu hyn wedi cael eu gweithredu ymhellach yn effeithiol.

Gofynnodd y Brifysgol i'r tîm adolygu ystyried pedwar maes i ganolbwyntio arnynt: ymgysylltiad a phartneriaeth â myfyrwyr; cyflogadwyedd; rheoli portffolio; symudedd myfyrwyr a rhyngwladoli. Dewiswyd y meysydd hyn i adlewyrchu cryfder darpariaeth y Brifysgol.

Y beirniadaethau am Brifysgol Abertawe

Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu'n barnu hyn:

- Mae Prifysgol Abertawe'n **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- Mae Prifysgol Abertawe'n **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academiaidd, i reoli ansawdd academiaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

Y canmoliaethau

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd nifer o ganmoliaethau, sydd wedi eu crynhoi isod.

- Y ffocws strategol a roddir ar gyfathrebu a thrafod gyda'r myfyrwyr sy'n creu teimlad cryf o gymuned ac sy'n gyrru gwelliant ar lefel y sefydliad cyfan ym mhrofiad y myfyrwyr.
- Y ffocws cryf a roddir ar y bartneriaeth â'r myfyrwyr yn y Brifysgol sydd wedi ei ymwreiddio ar bob lefel yn y sefydliad, ac sy'n galluogi i'r myfyrwyr ymgysylltu'n feirniadol â phrosesau gwneud penderfyniadau'r Brifysgol.
- Ystwythder ac ymatebolrwydd y camau gweithredu a gymerwyd gan y Brifysgol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 er mwyn sicrhau parhad y dysgu a'r addysgu a phrofiad y myfyrwyr.
- Y defnydd rhagweithiol a wneir gan y Brifysgol o brosesau a gweithdrefnau datblygedig i sicrhau rheolaeth strategol a datblygiad gweithrediadol effeithiol o'i phortffolio academiaidd, ynghyd ag adolygiad effeithiol ohono, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol i'w raglenni.
- Y camau gweithredu a gymerwyd gan y Brifysgol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 i sicrhau bod y prosesau sicrhau ansawdd a materion rheoliadol yn parhau'n gadarn. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno'r Polisi Rhwyd Ddiogelwch a gweithrediad y rheoliadau a pholisïau brys ym meysydd dysgu, addysgu ac asesu.

Y cadarnhadau

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd nifer o gadarnhadau, sydd wedi eu crynhoi isod.

- Y camau sy'n cael eu cymryd i adolygu polisi'r sefydliad ar arsylwi gan gymheiriaid er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llawn a bod arferion da a meysydd sydd angen eu datblygu'n cael eu casglu a'u lledaenu'n systematig.
- Y camau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i ymdrin â'r diffygion y mae'r Brifysgol wedi eu canfod yn argaeledd y data, a'r ffordd y defnyddir data, at ddibenion gwneud penderfyniadau, gwerthuso ac adolygu.
- Y camau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i wella ei pholisïau a'i harferion ym meysydd adborth ac asesu academiaidd i ymdrin â phroblemau a ganfuwyd ganddi mewn data o ymatebion ei myfyrwyr i arolygon mewnol ac allanol.

Yr argymhellion

Ni wnaeth tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd unrhyw argymhellion.

Rhagor o wybodaeth

Mae [Adroddiad Technegol](#) mwy manwl ar gael hefyd ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae'r Adroddiad Technegol yn nodi canfyddiadau'r tîm o dan bob un o'r penawdau yn y dull Adolygiad Gwella Ansawdd.

Mae'r adolygiad hwn a'i ganfyddiadau'n ymwneud â'r darparwr cyfan, ac nid yw'n rhoi gwybodaeth am raglenni astudio neu feysydd astudio unigol. I gael rhagor o wybodaeth am y rheiny, cysylltwch â'r darparwr neu [ewch i'w wefan](#).

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am QAA a'r Adolygiad Gwella Ansawdd ar [wefan QAA](#).

QAA2570 - R10478 - Chwefror 2021

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2021
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk